

dd c
hwydr
fotosynt
amhar o broton

id tystiolaeth
ad defny
yr all e
giad
le

am
newb
/act den
eddwr ar


Y STAMP

RHIFYN Tŷ NEWYDD

in, yw'r
libynnol
hynna'
o yr
d

gradd
esbly
hau
wne
bc

Mewn
eleni m
ystyr
drw
se



Marian Brosschot Manon Dafydd Mari Elin Lowri Ifor
Esyllt Lewis Grug Muse Llŷr Titus Iestyn Tyne
Ian Richards Sara Louise Wheeler

amry
addasu ac i oresgyn, i amhac
mathau mwy cymhleth o fyw
oll yn ategu pŵer ynni'r haul a
naturiol Wallace a Darwin. Di
gyfnewidiadau, parhaodd y cylc
geocemegol angenrheidiol o
carbon, ocsigen a sylffwr. Yr o
yn hanfodol er mwyn cynnal by
Ar ôl y trydydd chwyldro, a th
o un billwn a hanner o flynydd
blygodd bywyd ar ein Daear i yr
cyfundrefnau bywydegol ac e
ydym yn lled gyfarwydd â hwy l
anfodol, yn ein byd trefol, drw
tu yn unig y mae canran
beth naturi



GOLYGYDDOL

BORE SUL - 09:28

Mae Tŷ Newydd yn hen. Mi oedd o'n hen pan aeth Lloyd George a Clough Williams-Ellis i'w ail-wampio ddechrau'r 40au ac yn hŷn fyth yn y 90au pan ddaeth criw at ei gilydd i sefydlu canolfan ysgrifennu genedlaethol yma. Od felly ar un wedd ydi fod 'Newydd' yn rhan o'r enw o gwbl gan na fuodd o yn newydd sbon ers y 1400au.

Eto'i gyd, dyma un o lefydd fwyaf newydd Cymru. Mae'r criw sydd yma yn morol am hynny wrth fynd ati i gyflwyno'r lle ar ei orau, wrth ei addasu a'i ddatblygu - mae yna gelf cyfoes yma i'w weld drwy ffenest y llyfrgell wrth i ni deipio er enghraifft. Ond hefyd mae pethau creadigol newydd, beiddgar a chyffrous yn dod i'r byd yma ar raddfa anhygoel. Fesul cwrs, fesul tudalen a fesul syniad.

Pethau fel y rhifyn hwn sydd yn gyfuniad o wahanol ymarferiadau (gyda rhai y medrwch chi wneud eich hun) a chelf a chyfraniadau gan bobol o bob man. Rhifyn newydd sbon a gafodd ei roi at ei gilydd mewn llai na diwrnod, lle y gwnaeth pawb oedd yma hefo ni drïo rhywbeth newydd. Boed o'n ffurf, yn ymarferiad, neu'n ffordd o feddwl. Gwneud rhywbeth newydd oedd bwriad y cwrs hwn mewn sawl ystyr, a dyma'r canlyniad. Gobeithio y cewch chi flas arno fo.

Dyna ydi gwerth y lle 'ma, y tŷ newydd hen hen - rhoi gofod i greu pethau newydd wrth gwrs ond ein hatgoffa ni hefyd fod yna draddodiad a rhwydd hynt i ni barchu neu ddarnio hwnnw.

Codwyd Tŷ Newydd ar ei newydd-ish wedd yn y 40au a pheiriant yr Ail Ryfel Byd yn colbio mynd. Rhyfedd ydi meddwl ar un wedd fod pobol yn meddwl am godi tai a chreu pethau hardd ynghanol y fath helynt. Wrth gwrs pan mae pethau ar eu mwyaf enbyd y mae'r angen mwyaf am bethau hardd ac i bobol ddweud rhywbeth. Daeth portico drws Tŷ Newydd o dŷ a chwalwyd gan y Blitz yn Llundain. Gobeithio y medrwn ninnau un ac oll gymryd darnau o'r llanast byd 'ma sydd ganddom ni a chreu rhywbeth o werth hefo fo. Mi wnaiff y rhifyn yma'r tro am heddiw.

Llŷr Titus a Lowri Ifor 8.9.2019

Diolchiadau

Diolch i holl staff Tŷ Newydd ac yn benodol i Tony am ei ofal a'i fwyd, diolch hefyd i griw diwyd Tafarn y Plu am eu croeso cynnes. Diolch i:

Hoffai'r Golygyddion ddiolch o galon i fynychwyr y cwrs hefyd am eu cwmni a'u cynnyrch rhyfeddol.

Ceri Rhys Matthews

Morwen Brosschot

Ffion Morgan

Angharad Ellis

Esyllt Lewis

Jac Lloyd Jones

Emyr Lewis

Am eu gwaith yn nhrefn ei dderbyn.

We're oh
so tired

Y Gŵr Sydd

yn

holli cymdeithas

Gŵr eithafol

A bradwr ein bro ydwyf?

A dwylli di, hwyr y dydd,

Chwi wŷr gwan y **Brexit**

Y ffŵl anfeidrol ei ffydd.

NA

**NEWID Y DREFN OFNADWY
O DDYCHRYNLLYD"**

a

DYSGU

GWERSI

y dyfodol

Eisteddfod "wyllt" gyntaf yr Archdderwydd newydd

na fydd 99.99% o Gymry Cymraeg fyth yn ei ddarllen.

Murddin ap Dafydd

Cracpots?

Lleisiau Cu Cwm Celyn

Tu ôl i'r llyn a'r argae
Bu llawer teulu tlawd,
Yn rhythu ar beiriannau
Yn corddi tir fy mrawd;
Er rhybudd sawl oedolyn
Fu'n wylwyr ar y tŵr,
Adleisiau cu Cwm Celyn
Sy'n boddi dan y dŵr.

Pan fyddo gwaed yn berwi
Gwrthryfel yn y gwynt,
A boddi ein haceri
Er elw budur bunt
Pan dyrr y dant ar delyn
Cyndeidiau yn y stŵr
Aeth lleisiau cu Cwm Celyn
Yn ddistaw dan y dŵr.

Ond pan fo'r llyn yn wenfflam
A machlud fflam yn llwm,
A'r dydd yn tawel riddfan
Ar ysgwydd bell y cwm;
Hen leisiau pêr sy'n erfyn-
Mi wn yn eithaf siwr
Bydd lleisiau cu Cwm Celyn
I'w clywed dan y dŵr.

O! cenwch, utgyrn gobaith,
Ar waelod llaith y lli;
Daw oriau bore perffaith,
Yn sŵn y gân i mi;
Hyd fedd, mi gofiai'r dyffryn
Ar lawer nos ddi-stwr,
A lleisiau cu Cwm Celyn
Yn corddi dan y dŵr.

Jac Lloyd Jones

~GRUG MOUSE

Pen yn y Cymylau

Peintiodd ei Mam lun cwmwl ar wal llofft Lisa. Safodd Lisa ar ben stôl yn edrych yn syn ar y wal. Daeth Elen i mewn i'r ystafell a gofyn "ti isho dod i chwara' allan efo fi?" Edrychodd Lisa'n syn ar ei chwaer gan ysgwyd ei phen yn ddryslud. Ar ôl ennyd o sefyll ar y stôl a dadansoddi'r cwmwl ar wal ei hystafell, camodd Lisa'n ofalus i lawr a rhedeg allan at ei chwaer. "Hei El, ga' i chwara' efo ti?" gofynnodd yn hyderus.

"Cei siŵr, doeddet ti ddim isho eiliad yn ôl Lis, ti'n iawn wyt?" gofynnodd ei chwaer yn bryderus.

"Yndw siŵr El, o'dd y mhen i yn y cymyla' pan ofynist di cynt, sori!"

Banc Barclays

Enillodd William y loteri a phrynodd feiro grand iawn. Roedd hynny'n syniad drwg. Golygodd hynny iddo wneud y mwyaf o'r feiro a'i defnyddio i ysgrifennu mwy o sieciau, gan wario'r arian i gyd.

Edefyn Rhydd

Mai'n debyg ei fod o wedi digwydd i bawb. Hen edefyn bach yn gwthio'i ffordd allan o'r patrwm taclus o amgylch dilledyn. Yn mynnu ei ffordd yn erbyn gwraidd y patrwm, yn brotest sy'n arwain i'r dilledyn raflo a mam yn gorfod gwnïo'r hen drowsus hwnnw eto. Peth felly ydy cariad am wn i. Lyfli pan mae o'n rhan o rywbeth cyflawn. Cynnes pan fo'r edefyn a'r patrwm yn cyd-fynd mewn harmoni nes daw'r dydd i newid cyfeiriad weithiau, a phenderfyniad sydyn yr edefyn i ollwng gafael a mynd ar ei liwt ei hun gan arwain at y raflo dieflig. Ond rhaid cofio bod mam yn gallu trwsio ein hedefyn ninnau hefyd, nid dim ond ar ddilledyn.



, shwt
gyrhaeddon ni fan hyn,

Daeth y syniad o greu'r
tirwedd

Yn fôr o law

hynganu'n gywir
lywed yr enwau'n cael eu

ardaloedd dan sylw.

- IAN RICHARDS

TRAETH
TRESTYN TYNE



LLŶR TITUS

2: Wel gafu ni dywydd oleia.
Daw cymertad arall wysg ei ochr i mewn.
Mae o'n sdopio ysgwyd llaw.
Gwanio neith hi berg.
Do, mi ddaliodd yn braf.
SAIB.
Diolch. Ia, glaw odda nhw'n addo. ers...
Mi ddowch i'r te.
Ia. Ia. Glaw.

Bedd agored a rhywun yn sefyll yn dal eu llaw allan gryn belter i ffwrdd.
Mae o'n dechrau ysgwyd eilaw.
1: Ia. Ia. Diolch.
Ydi mae hi. Diolch byth am hynny de.
Diolch. Ia. (SAIB) Ia.

BOCS

HAFFNAU 'R TRAETH




I'R CHWITH



Tŷ OL

TESTYN TYNE



YMLAEN

Cerdd fach wirion ar brawn heulog

Dwi'n methu cynhesu yn fy m\u00e8r
Rywsut at gerddi Baudelaire;
Dwi ddim fel y rhai sy'n methu dal
Pan glywant s\u00f4n am Les Fleurs du mal
Er mod i, fel rheini, o'r bourgeoisie.
Nid \u00e9pateiwyd mohonof welwch chi.
Dwi'n gwybod ei fod o'n dipyn o fardd,
Ond anodd yw twymo at awen a chwardd
O ddifri dim ond ar glorniau grotesg.
A 'sgen i'm amynedd gwybod mor llesg
Yw bywyd y cr'adur, ei spleen a'i ennui,
A'i ddychymyg am bethau ych-a-fi.

A dyna chi wedyn Verlaine a Rimbaud...
Howld on am funud - un ar y tro.

Emyr Lewis

CERDD FACH WIRION A BRAWN HEULOG - BNAWN HEULOG

DRAFFT.....

Penlinia'r prif gymeriad ar ganol y llwyfan. Ar un ochr iddo/iddi, gwelwn fag bin du wedi ei adael yn flêr. ac ar yr ochr arall, pentyrrau uchel o lyfrau – gellir cael faint fynir o'r rhain, ond mae'n hânfodol creu'r argraff bod yna nifer eithafol o lyfrau wedi eu pentyrru yn yr ystafell, a'r rheiny'n domenydd blêr hefyd. Dylid bod cymysgedd o fathau o lyfrau, ac ni ddylid bod â threfn ymddangosiadol iddynt chwaith.

PRIF GYMERIAD Nes i godi heddiw a meddwl rhoi cynnig iawn arni tro'ma. Dim eu hel nhw o bentwr i bentwr, er mwyn teimlo 'mod i'n gneud rwbath o werth, ond llenwi bagia bin ohonyn nhw, eu llusgo nhw allan i'r ardd a'u llosgi nhw'n ulw, a'r geiria'n dianc o'r tudalennau yn y mwg fatha llythra noswyl dolig stalwm. Nes i ddechra arni hefyd, nol bag bin yn barod, a meddwl am chydig y basa fo'n hawdd deud ta-ta wrthyn nhw, y basa bob un yn haws na'r dwytha.

(Mae'r prif gymeriad yn codi cyfrol o'r pentwr a'i anwylo wrth siarad. Daw'r ail gymeriad i sefyll y tu ôl i'r prif gymeriad)

Ond wedyn dyma fi'n gweld y gyfrol gynta ar y pentwr a cha'l lwmp yn fy ngwddw, a methu yn fy myw a symud fy mraich, agor fy llaw, gafal ynddi a rhoi fflich iddi i'r bag. Nes i drïo ngorfodi fy hun i neud, trio bod yn wrthrychol am y peth, hyd yn oed trio perswadio fy hun rhwsut nad oedd o ormod o ots gan y baswn i'n medru dod o hyd i gopi arall ohoni tasa'r hiraeth yn rhy gry. Ond na, y copi yma oedd yn bwysig.

AIL GYMERIAD Cerddi a Baledi I D Hooson. Ond mi rwt ti'n casau barddoniaeth. Welis i mohonat ti'n darllan cerddi erioed.

PRIF GYMERIAD *(dyma pryd mae'n sylweddoli beth yw'r gyfrol sydd yn ei ddwylo, ond tydi o ddim fel pe bai o'n ymateb i'r ail gymeriad chwaith)*

Licio eu teimlad fydda i. Eu tudalennau nhw rhwng y mysedd i, eu cloriau nhw amdanai. Sbio arnyn nhw hefyd. Ma nhw fatha cragan amdana i. Yn edrach ar fy ôl i. Be faswn i hebddyn nhw? Be fasan nhw hebda i yma i sbio arnyn nhw, ac i edrych ar eu holau nhw.

≈ JANICE ANN JONES YR AIL

HER:

DEWISIWCH DDELWEDD I SBARDUNO SCRIPT:

Chwiltwch am yr rhain i weld y darnau sy'n ymateb i'r HER

[Mewn caffi mae rhywun yn eistedd wrth fwrdd, mae nhw'n gwisgo dillad sy'n taro rhywun fel dillad gorau. Mae nhw'n edrych o'u cwmpas, yn codi cwpan ac yn gwenu.

[Mae unigolyn o flaen drych mewn ystafell dywyll, mae'n sylu iddo am yn hir cyn dweud:
'Chicken Dippers, waffls, dau dun o fins.'

[Mae gan rywun llawn gormod o lyfrau o'u cwmpas.


[Coeden hefo un deilen arni, rhywun hefo berfa o'i blaen.

[Bedd agored a rhywun yn sefyll yn dal eu llaw allan gryn bellter i ffwrdd.

[Rhywun yn eistedd hefo bocs ar eu glin.

[Ffenast wag.

Mari Elin



ESyllt Lewis

EE 14:58 15%

Notes

7 September 2019 at 14:58

Awn cyn i'r haf farw
I nofio ym Medi
A theimlo'r creigiau'n rhwygo croen
Y berw rhwng ein bysedd.

Awn gyda'r haul dan gwmwl
A'r môr yn bell o'n dillad trwm.
Chwerthin i ddatlu yr iasau yn ein
hesgyrn.

A dyma fi'n benysgafn eto. Rhywle draw o
draffig a chynnyrch a chwd fy mhen cyn
cysgu.

A dyw fy nhraed i ddim ar y ddaear. A dwi
allan o'n nyfnder.

A dwi ddim yn ennillcyflog ond dwi'n
medru cynnal fy hun yn y môr.

Awn cyn i'r haf farw i nofio ym Medi.



Hel i

Er yr holl bacedi plastig,
y cadeiriau mân ar lawr
a'r cestyll tywod unig,
mi wnafeu hanwybyddu
gan anelu at y dŵr.

Dyma fan yr atgofion.
Man y cyffro a man y wên,
man yr hwyl a man yr olion.
Dyma ble dwi am fynd gan
dafllu siwt oedolyn i'r gwynt.

Y gwylanod sy'n cecru'r hafaiðh
gan rwygo'r swyn y tawelwch,
ond mi deimlaf mor gaeth
i hud rhythmig y tonnau.

Yma, rwy'n gwlychu fy nhraed oer,
neidio ymhell dros yr ewyn gwyn
a chwerthin i'r sêr a'r lloer,
heb un gofid nac ofn
a meddwl ond am yfory.
Dyma yw fy mynd i.
Dyma yw fy nihangfa i.

Ffion Morgan



CELF: MARI EUN



'MAE NEWID HINSAWDD
YN BRAWF ARNOM NI'

Y DIWEDDAR

GWASANAETH ADEILADU

GWOBR

Gwynn

ESTRON

GWYLLT

PREGETHU

TEYRNGED

HANES

ETO

DOD AT EIN COED

NOSON

I'R PLANT

TÂN

MENTER

LWYDDIANNUS



NIENED

DIOLCH AM BOB CEFNOGAETH

Heddwch i'r Byd



MANON A SARA



Manan. glyn

HER:

Model i sefyll am 10 munud.
1 person i ddarlunio am 5 munud.
Pasio'r darn ymlaen i'w orffen
gan rywun arall am y 5 munud olaf.

life

drawinG

Dilla OG


MODEL: GRUG MUSE




LOWRI A MARI



LLŶR + IESTYN



Manon
Marian



Iestyn + Mari

Cynnyrch sesiwn arlunio
lar, y cyd yn
Nhatarn y Plu.

Haf hirfelyn tesog

Crawc cigfran
yn cynnau matsien
ar wres y dydd
a'r haul yn blodeuo'n boeth.

Y wlad wedi ei dinoethi,
â'i hesgyrn yn brigo drwy'i chroen,
yn swatio'n styfnig
i araf orosi'r sychder.

Ond yma ar draeth
does dim i'w wneud
ond teimlo'r awel hallt yn anwesu'r croen
a thon ar ôl ton yn llepian
yn un corddiad o gerrig mân
a chymylau o dywod

does dim i'w wneud
ond gwrando ar chwalp y tonnau'n dirgrynnu'r galon
a'r cregyn yn glychau dan draed

does dim i'w wneud yng ngwres yr haf
ond edrych ar arogl y gwymon
yn codi i'r entrychion efo'r tes.

Cwpan wy. Ecob. Gwarchodwr wy. Ma'n fach ag yn ciwt - reit debyg i'r wy sy'n swatio ynddi.
Wy mewn cwpan wy, fel pen plentyn bach mewn het aef, ond yn ben i waered wrth reswm. Darpar-iâr yn cadw'i wy'n gynnes. Yn snydd a chlud. Yn ffitio fel manag.

Ma'n
Bwrlwm y
dros y lle
blobs o feny
ddiog.

Ma'r wy y
Am eiliad. Nes
oeddi arno, yr wy
naid bensil i'w
ger-lifo dros och
y blât. Afen o felyn -

Mi fydd
fydd hwnnw
wedi treiddio'n ddyfn i
mewn i raen y pren, a'i ludio'i hun iddo, ac ynddo. Pren a melynwy ynghyd. Wedi creu defnydd gwbl newydd. Pren gludiog... Wy-bren... Melyn-bren...

Ecob. Cwpan wy. Gwarchodwr wy. Ma'n fach ag yn ciwt - reit debyg i'r wy sy'n swatio ynddi. Wy mewn cwpan wy, fel pen plentyn bach mewn het aef, ond yn ben i waered wrth reswm. Darpar-iâr yn cadw'i wy'n gynnes. Yn snydd a chlud. Yn ffitio fel manag.

Ma na rw bath am gwpan wy sy'n f'atgoffa i o blentyndod. Bwrlwm y bwr brecwast. Tôst a sudd oren a phowlenni sirial. Briwsion dros y lle i gyd, hyd yn oed tu mewn i'r potyn jam sy'n ista'n geg-agored â blobs o fenynddo hefyd wedi dync gan gyllell ddiog.

Ma'r wy'n ista'n ei gwpan wy'n dawel a bodlon. Am eiliad. Nes daw llwy dê i gracio'r plisgyn a rhwyg'r caead oddi arno, yr wy fach daclus. Yna, y soldiwr-dôst yn gneud naid bensil i'w ganol. Ma'r melynwy'n ffrwydro ac yn byrlymu dros ochra'r wy, a wedyn y gwpan, a wedyn y blât.

Mi fydd y gwpan wy'n hen felynwy cwr-llyd o hyd. Mi fydd hwnnw wedi treiddio'n ddyfn i mewn i raen y pren, a'i ludio'i hun iddo, ac ynddo. Pren a melynwy ynghyd. Wedi creu defnydd gwbl newydd. Pren gludiog... Wy-bren... Melyn-bren...

Mae Trefor o flaen drych mewn ystafell dywyll, lle'r unig olau yw tamed o olau'r lleuad yn gwthio i ffordd mewn drwy'r ffenest fach. Does dim yn yr ystafell ond am wely, sinc a'r drych. Mae'n syllu i'r drych heb edrych i ffwrdd unwaith.

Trefor: *Chicken Dippers*, waffls, dau din o fîns... [*saib weddol hir*] Neu *fillet steak*, reis a sôs coch? Sai'n gw'bod be i ddewis. Be fydde ti'n ddewis? Be ti whant? Ti'm yn gwybod chwaith, na? Na. Na finne chwaith.

Jiw, nes i rio'd feddwl bydde dewis pryd o fwyd mor anodd. Nawn ni *pros and cons*? Ie, nawn ni restr, ma' rhestre'n help.

Ma' *dippers*, waffls a bîns yn ffein, yn hawdd, yn hapus. Dyna yw blas hapusrwydd.

Ond ti'm yn haeddu hynny na? Na, na. Eniwei, ma fe'n ddewis *boring*, a ti'm ishe bod yn *boring*.

Ma' stecen, reis a sôs coch yn *gweud* rhywbeth am rhywun, nagyw e? Sain gw'bod *beth* ma'n weud, ond dyw e ddim yn *boring*. Sa'i moyn dewis rhywbeth *boring*. Ti'm ishe dewis rhywbeth *boring* chwaith, na? Dim ti o bawb.

Na. Ga'i *fillet steak*, reis a sôs coch.

[*Mae llais arall, i'w glywed o'r ochr arall i ddrws yr ystafell.*]

Huw: Nid gofyn oeddwn i Trefor. Ond *dweud*. Dod i ddweud bod y bwyd yn barod.

Trefor: Yn barod? *Nawr*?

Huw: Ie nawr, dere.

Trefor: Ond sdim whant bwyd arna'i. Ti whant bwyd? Na - na be o'n i'n meddwl. Sori, ond sdim whant bwyd arno ni.

Y PRYD

Huw: Trefor, plis paid 'neud hyn yn anoddach nag yw e'n barod.

Mae Trefor yn dechrau colli amynedd a gafael yn dynn dynn yn ochrau'r sinc o'i flaen.

Trefor: Sori Huw, ond petai ti'n gweithio mewn *restaurant* bydde ti ddim yn gorfodi rhywun i fwyta pan nagos whant bwyd aryn nhw byddet ti?

Huw: Na bydden, ond ni ddim mewn bwyty Trefor.

[*Mae Trefor nawr yn gafael mor dynn yn y sinc nes fod ei ddwylo'n wyn ac yn dechrau crynu cyn gweiddi.*]

Trefor: Wel pam ti'n gofyn i fi be fi moyn i swper te?!

Huw: Trefor. Mae'n rhaid i ti ddod gyda fi, ti'n gwybod na. S'dim rhaid i ti fwyta'r pryd os nagwyt ti moyn, ond mae'n rhaid i ti ddod. Ma' nhw'n aros amdanat ti a ma'r pethe 'ma yn rhedeg ar amserlen ofandwy o dynn.

Trefor: Ti'n addo bod dim rhaid i fi fyta? Do's jyst dim whant bwyd arna'i Huw. Ddown ni, ond smo ni whant bwyd.

Dyn: Fi'n addo Trefor, bydd dim raid i ti fwyta dim un cegaid.

[*Chywir sŵn bwndel o allweddi yn tincian a'r clo yn troi. Mae'r dyn, yn ei iwniform, yn arwain Trefor allan o'i gell a thuag at ei bryd olaf.*]



Mae'r rheolwydd teledu yn decllyn pŵerus. Fe'i ceir, yn naturiol iawn, ym mhob man y ceir teledu. Ac mae teledai yn bethau niferus. Ar yr ynysoedd hyn, mae dau set deledu i bob un person – dros gan miliwn o deledai.

Ac fe geir teledai mewn cartrefi sydd heb yr isadeiledd sydd ei hangen i gynnal amodau byw sylfaenol dyn – mewn cartrefi sydd heb ddŵr, heb doiled, heb do. Buddsoddiad cynnaf aml un wedi prynu tŷ a derbyn ei allweddai yw gosod y teledu; gweithred gyntaf aml i garafaniwr a champarfaniwr – cyn gosod na thanc dŵr nac adlen na handbrec, bron – yw gosod yr erial i sicrhau derbyniad teledu.

Pan ddaw'r sgrîn yn fyw, bydd y sawl sy'n dal y sianelchwilwr hudlathaid yn gwybod o reddf sut i'w ddefnyddio. Gall ei ddefnyddio i hidlo'r miloedd o ddewisiadau sydd ar gael iddo yn un sianel, gan wybod y gall newid ei feddwl eiliad yn ddiweddarach. Ni fydd y teledu'n ddim dicach.

Ond anghyfarwydd ydi'r rheolwydd teledu i mi. Neu os nad anghyfarwydd yw'r gair – diarth, efallai. Does yna ddim teledu acw, ac mi ges i fy magu mewn tŷ di-deledu hefyd. Di-deledu fu fy mywyd felly, bron yn ddi-dor; ar wahân i gyfnod yn y coleg, pan y bŵn yn cyd-breswyllo yn yr un tŷ â set deledu am rai tymhorau. Tymhorau rhyfedd oedd yr rheiny, o e drych yn ôl – dyna'r unig gyfnod i mi fod yn hyddysg yn fy nheledu cyfoes, yn fy moos-seiau Netflix... rhyw ffenestr od o drwytho mewn diwylliant penodol am gyfnod penodol, yna'i adael – a pheidio gweld ei eisiau.

IESTYN TYNE —

Y ffon.

Fu'm i rioed yn un ymarferol. Er siomedigaeth a diddanwch am yn ail i'm teulu, rhyw ddigon di-glem ydw i wedi bod erioed am drwsio ac am ddod o hyd i'r ffordd hawsaf o fynd o gwmpas gwneud unrhyw beth. Yn tollti dŵr o sosban y ffordd groes, yn torri torth yn gam ac yn fwy tebygol o roi fy mys mewn soced plwg na gwybod sut mae newid ffiws. Yn bwysicach fyth yn fawr help o gwmpas y lle 'cw. Digon o ddiddordeb i ddechrau arni: codi cwt ieir, plannu ffa, mynd i sêl warthaig ond heb ddigon o fynd i ddal ati: i gau'r ieir, i chwynnu ac i helpu i gael y newydd ddyfodiaid i fewn o'r lori i'r tŷ gwair.

Syndod felly oedd i mi ofyn am ffon fel presant penblwydd yn unarddeg. Roedd Gareth RockHouse, trefnwyr angladdau, saer a rhywun a fyddai'r teulu yn gwneud dipyn hefo fo yn gwneud ffyn i'w gwerthu a fo gafodd y comisiwn. Ac yn fy ngwir mi ges ffon. Ffon a ddaeth i'r byd mewn gyda'r nosau rhwng dyddiau eirch trigolion Nefyn. Mewn cwt sinc yn llawn llwch lli ac oglau olew wast dewiswyd darn o bren a oedd wedi ei sychu'n iawn, fe'i sythwyd dan wres a'i baratoi. Mi ges fod yn dyst i rai darnau o'r broses a dysgu'r theori. Roedd hynny yn ddigon difyr nes iddi hi ddod yn nes at amser te. Daeth y ffon heb ei lapio am fod hynny'n job. Yn goesyn coed celyn, y pen yn dderw a phen ffesant wedi ei gerfio ar flaen y ddolen. Yn ôl yr hanes o glawdd heb fod yn bell i acw ddaeth y coedyn a'r farnish o Bristol. Roedd hi'n ddigon o sioe.

Gan hynny mi fues am rai diwrnodau yn cerdded y caeau a mynd a'r ffon hefo fii sbio ar ddefaid ac i sefyll mewn glaw man a chael ei rhoi yn barchus wedyn yn y peth dal cotiau wedi iddi gael cadach tamp arni hi. Fe oedd hi'n union be fyddai rhywun yn feddwl fyddai ffon wrth feddwl am y gair. Eto'i gyd doedd hi ddim yn ffon go iawn.

Roedd y ffyn go iawn mewn hen fwcad flawd yn y deri. Tameidiau o beipiau plastig rhyw bedair neu bum troedfedd o hyd, wedi eu torri o ddarnau sbâr rhyw brosiectau nad oedd neb yn eu cofio'n iawn bellach. O weiddi 'Dos i nol ffon' am un o'r rheiny fyddai rhywun yn mynd. Pan yn symud neu ddadlwytho gwartheg un o'r rheiny fyddai'n law pawb. Plastig, nid coedyn fyddai bustych yn ei deimlo ar eu cefnau os oedden nhw rhyw fymryn yn aradeg yn mynd o un lle i'r llall. Hwnnw oedd y dewis ymarferol.

Ffon ddrama oedd gen i. Ffon sioe. Syniad o ffon nad oedd wir o iws i neb ond rhywun a oedd yn lecio syniadau pethau yn fwy na'r peth ei hun.

Llŷr Titus



Powlen wydr.

Mae hi'n bowlen braidd yn fawr i ddal hufen iâ.

Mae 'na siapiau 'fala ynnddi, 'tha bod 'na fala i fynd i mewn iddi ond dydy hi'm digon mawr i hynny 'chwaith: Rhyw bowlen hanner hanner i ddal ddim byd.

Dydy hi'm digon delicet i win, er bod gynni hi goes 'tha gwydr gwin, ond mae'r gwydr yn drwchus ac mae hi'n edrych yn drwm. Nid llestr i'w chodi at wefusau mohoni.

Pŵl ydy'r golau sy'n adlewyrchu oddi arni. Mae hi'n taflu cysgodion ar y bwrdd ond dim cysgod llawn - cysgod anghyflawn aneglur, 'tha sa hi'm yn siŵr ydy hi yno i gyd, 'prun a'i yn dryloyw neu'n solet.


Dw i'm yn meddwl bod hi'n gwybod pwy ydy hi na be' mae hi'n neud. Mae hi'n disgwyl i rhywun ddeud wrthi, i'w labelu hi, rhoi swydd iddi a swyddogaeth. Job. Enw. Label.

Gwagle yn disgwyl am lenwad.



Marian Brasschot

Marian Brasschot





Dychwelyd

Anghofiais am b'nawniau syml, heddychlon
a sut all rhywun ymgolli yn sisial y llanw.
Anghofiais sut oedd bywyd cyn y prysurdeb, y pwysau, a'r pryder,
a phenderfyniadau erchyll sy'n chwalu'r pen yn llwyr.
Anghofiais sut i gau llygaid ac amsugno'r awyrgylch,
gan werthfawrogi naws y diwrnod, heb iddi orfod 'cyfri'.

Ni ystyriais sut fedrith criw o ffrindiau newydd
biciad i'r traeth, gan mwynhau'r saib yn ddi-euog.
Anghofiais sut deimlad yw hi, i fod yn iach ac yn ddi-straen,
hefo meddwl clir a dyfodol llawn posibilïadau.

Dysgais unwaith eto sut i eistedd yn llonydd
yn mwynhau'r awel ar fy ngwyneb ac arogl glan y môr,
sut i wylïo aderyn ar graig yng nghanol y dŵr
gan ystyried pam nad yw hefo'r gwyfanod eraill ar y lanfa.

Mae'r golau'n hufennog ac mae par o elyrch
yn nofio mewn cylchoedd araf.
Mae'r byd wedi peidio troi o'm cwm pas a mae fy ysbryd yn ysgafnach.
be bynnag ddaw, dwi'n optimistaidd

(Wedi ei hysbrydoli gan 'Homecoming' gan Tishani Doshi)

Cerdd gan
Jara Louise Wheeler

Cefndir gan
Mari Elin.

Pam dwi'n deffro'n fuan

Deffro'n y llwyd-dywyll

rhwng dau olau

a'r ddaear yn troi'n ei chwsg,

ar y brig rhwng tywyllwch a golau

a nodweddion y nos yn dal i loetran

yn aneglur

wrth i'r wawr welwi;

y cyfnod hwnnw

lle mae'r lledrithiol yn codi cwr y llen

ac ar fin ymadael

am ddiwrnod arall;

wrth i mi stwyrion, rhwng cwsg ac effro,

daw brawddeg i'r meddwl,

'mae fy meddwl yn agor fel llyfr...'

...ac rydw i'n dechrau sgwennu


cyn ymestyn fy llaw at feiro!

Gwelaf sawdl y nos yn diflannu

a'r llen yn cau,

a chamaf innau ymlaen i fewn i'r dydd

i greu fy hud.



Ffenast wag. Dim ond yr awyr lwyd gola sydd i'w weld drwyddi. Tu mewn, ma'r ystafell yn dywyll - ddim mor dywyll ac y mae hi ganol nos ond mewn riu dywyllwch ganol dydd sy'n erfyn am olau lamp. Mae Nerys yn ista ar waelod y gwely'n edrych tua'r ffenest. Daw ei chath, Beni, i mewn drw'r drws sy'n gil-agored. Mae Nerys yn deud, heb droi ei phen na sbio ar y gath:

"Fedrai'm gneud hyn Beni bach."

Ma Nerys 'di byw ei hun ers tair mlynadd bellach, ar ol byw efo'i rhieni a'i brawd bach am gyfnod lot rhy hir ar ol colli ei swydd fel athrawes. Ar ol chwe mis o fyw ar ben ei hun, penderfynodd hi ga'l cath. Mae hi wedi dod yn fford iawn o Beni ers hynny. Ma f'ynta di bod yn gwmni iddi ac yn riwin i siarad efo, neu i fod yn glust o leia, i nadu hi rhag mynd ar goll yn ei meddylia hi hun.

Bydd Beni'n gneud pob dim y medrith o i fod yn gyfaill i Nerys. Mi fydd yn ei deffro bob bora gan roi ei bawenna'n ysgafn ar ei bocha. Daw i mewn i'r stydi tra bydd Nerys yn arlunio a phlethu'i hun rhwng ei choesa hi, coesa'r gadar a choesa'r isl.


Mamm Dafydd

Handwritten notes in the top right corner, partially obscured, mentioning "MOT ac y", "for", "near riu", "ond", "olau lamp", "ar waelod ei", "ffenest", "Daw", "m drw'r drws".

Handwritten notes on the left side, including "el, heb dr", "ai'm gneud", "di byw yn dda", "bell gath:", "Fedrai'm gneud hyn Beni bach", and "Ma Nerys mlynadd".

Handwritten notes at the bottom, including "chwe mis o fyw", "ei hun, penderfynodd", "Mae hi wedi", "Beni ers hynny", "gwmni iddi", "siarad efo", "i nadu hi", "Bydd Beni'n gneud", "y medrith o i", "fydd yn ei", "bera gan roi", "ei bocha", "mewn i'r", "phlethu'i", "ar luno", "a phlethu'i", "hynny", "Daw i", "mewn i'r", "stydi", "tra bydd", "Nerys yn", "arlunio", "a phlethu'i", "hun rhwng", "ei choesa", "hi, coesa'r", "gadar a", "choesa'r", "isl.".


No Gardens in the Hafod Much



Cefndir : Nanon Dafydd

Ceri Rhys Matthews





Boris Johnson.

y wlad yn gaga am
'marshmallow blewog'

argyfwng o ddifrif

'mashin-guns'?!'

argyfwng hinsawdd

tymheredd y byd yn codi

45°C yn Trawsfynydd

yn debyg iawn i'r Aiffel.

iâ yn diflannu o'r Arctig.

Mae'r byd yn llosgi

Wi'n beio dynolryw.

sgrechian mewn i'r gwagle

Wylit, wylit, Lywelyn,

Wylit waed pe gwelit hyn.

Glyn Wise yn Brif Weinidog

does dim gobaith caneri

Fuck it.

Gwrthryfel

Amuriceetha

Y teithiwr talog

O LYN PADARN
LINDIA)

o'r Alban

Armenia

A Bwrllwm

Dinas Barcelona

Bordeaux a Thrinidad

Jamaica a'r

Biennale...

Teithio'n ôl i Gymru

at

i'w fam

R. un mlynedd yn ôl, gofynnwyd i mi gan Iu o ffynhau
R. Chymry yn eu plith - pam ar wyneb y ddinas.

MANON DAFYDD —

Angen

angerdd

nos y

cyrff i

noethion

ffyrnig

lleisiau

Bwrllwm

Schmarllwm

Pwy sy'n credu?

areithwyr o byrd.

Trawsnewid

Ha! Dim ek!

IAN RICHARDS

Arnold + Nora

Drafft

*Ystafell wely dywyll. I'r chwith mae ffenest, a'r llenni bron ar gau, ond mae'r ychydig olau ddaw drwyddi'n awgrymu bore llwm o Hydref. Mae naws hen-ffasiwn i'r ystafell – lliain bwrdd crochet ar y bwrdd bach wrth y gwely, a fringing o gwmpas y lamp. Mae dressing table efo drych hen-ffasiwn a photeli persawr gwydr yn sefyll wrth y ffenest. Mae ochr chwith y gwely'n dwt – y clustogau'n syth a ymyl y cwrlid wedi'i blygu'n daclus – ond mae clustogau'r ochr dde yn gam, a'r cwrlid yn rychau. Mae **Arnold** yn eistedd ar erchwyn y gwely ac yn edrych i'r drych ar ddrws y wordrob wrth ffysian efo botymau ei grys. Mae'n syllu iddo am yn hir cyn dweud:*

ARNOLD: Chicken dippers, waffls, dau din o fîns.

Mae'n gorffen botymu ei grys, yn bachu ei fresys dros ei ysgwyddau, ac yn codi'n ara' bach gan riddfan. Aiff at y ffenest, ac agor y llenni. Daw mwy o olau i'r ystafell.

ARNOLD: Ia, dyna ddudodd hi de, ag i beidio anghofio'r bîns. Neith lago ddim byta pys medda hi.

*Mae **Arnold** yn troi i adael yr ystafell, ond yn oedi wrth edrych ar y gwely. Mae'n syllu ar yr ochr chwith, daclus. Aiff ati, a brwsio darn o lwch dychmygol oddi ar y cwrlid cyn sythu clustog sy'n syth yn barod. Estyna at yr ochr dde, a taflu'r cwrlid yn ôl i'w le'n frysiog, heb yr un gofal. Wrth edrych ar y gwely gwag, mae **Arnold** yn dweud, yn ddistaw:*

ARNOLD: Chicken dippers, wir. Hen lol. Be sy'n bod efo cyw iâr go iawn de, efo croen di crispio. A grefi. Digon o hwnnw, nes fod y pys yn nofio. Ond na. Ddudodd hi fod lago ddim yn licio pys. A ma Nerys yn gwbod swm i'm yn gallu gneud cinio dydd Sul be bynnag.

"Jyst gnewch wbath syml Dad" udodd hi. Chicken dippers, waffls, dau din o fîns. Ma lago'n licio bîns, felly dwi'n gorfod prynu dau din. Ond tinia bach, dim rhei mawr, rhag ofn i betha fynd i wast.

Chicken dippers a waffls yn hawdd dydi – jyst eu lluchio nhw'n y popty, a gneud y bîns mewn sosban.

*Sytha **Arnold** yn sydyn, fel petai wedi cofio rhywbeth. Mae'n ysgwyd ei ben yn sydyn, ac yn troi ar ei sowdl a gadael yr ystafell.*

.....
*Cegin fechan. Bwrdd sgwar gyda lliain coch a gwyn, a dwy gadair ym mlaen yr ystafell. Mae rhes o gypyrddau formica a phopty'n llenwi'r wal gefn. Ar un o'r worktops, mae rhes hir o lyfrau coginio, a'r darnau o bapurach a'r staeniau ar hyd y meingefnau'n awgrymu eu bod wedi cael eu bodio'n aml. Mae amryw o botiau sbeisys mewn rhes daclus wrth eu hymyl. Daw **Arnold** i mewn, rhoi'r tegell i ferwi ac eistedd wrth y bwrdd.*

*Cyn i'r tegell gael cyfle i ferwi, daw cnoc frysiog ar y drws, yna swm goriad yn y clo, a daw **Nora** i mewn. Mae **Nora** yn ei hugeiniau hwyr, a'i gwallt wedi ei dynnu'n fyn ar dop ei phen,*

a hoops mawr yn ei chlustiau. Mae'n gwisgo jîns a chrys chwys, a mae'n cario bocs o bethau llau.

NORA: Haia Arnold! Dach'i'n iawn? Sori os dwi'n styrbio, dwidi dod bach yn gynt heddiw, dwi'n goro nôl Jake o'r creche yn gynnar i fynd a fo i gal jabs cyn i syrjeri gau.

Mae Nora yn prysuro o gwmpas y gegin ac yn dechrau estyn ei photeli o hylifau. Stopia am eiliad wrth sylwi ar wisg Arnold.

NORA: (yn fywiog) Eeeiii, dachi'n smart heddiw Arnold! Dwi'm di gweld chi'n y crys yna ers ... (mae fel petai'n sobri) ia, wel. Be di'r *occasion*? Di gwisgo fyny'n sbeshal i fi dachi? Odd im raid i chi wir!

Gwena Arnold. Mae'n amlwg ei fod yn hoff iawn o Nora, a bod y ddau'n gyfforddus iawn yng nghwmni'u gilydd.

ARNOLD: Dim byd mawr wsgi. Ond ma lagon dod yma pnawn ma. A dwi'n gneud swpar i ni.

NORA: Iago ... hogyn fenga Nerys ia?

ARNOLD: Ia, nachdi – dio'm digon hen i fynd i'r ysgol trw'r dydd eto, a ma gen Nerys gyfarfod pwysig pnawnma. Ma Owen yn mynd at ryw ffrind ar ôl ysgol felly mond iago a fi fydd hi.

NORA: Ooo lyfli! A ddudoch chi bochi'n gneud swpar? Wwww, be sy ar y menu llw?

Mae Arnold yn rowlio'i lygaid ac yn tuchan cyn dweud:

ARNOLD: Chicken dippers. A waffls. A bîns.

NORA: Chicken dippers?! Nachi eiria' feddylis i 'rioed swni'n glywad yn y gegin yma. Be sa Jean yn ddeud?!

Stopia Nora'n sydyn wrth weld yr olwg ar wyneb Arnold. Eiliad aflonydd. Wedi saib,

ARNOLD: (Yn or-fywiog) Reit ta. Dwi angen dy help di. Lle gebyst ma rywun yn ffendio chicken dippers a waffls yn y dre ma?!

Thursday 5 September

May 27 2019

The priority of this Government

Aug 19 2019

A general election
Tony Blair
crisis

Fixed Term

To stop... please
text 'NSIONIN' to the originating number.

cost 50p plus standard charges.

Brexit

FFOCIN
twat

CYFFES GAN GRUFF MEREDITH

[REDACTED]

FESTIN TYNE

Nid gwyddonydd ydw i

(da iawn am gyrraedd fa'ma gyda llaw)

Dwi'n sylweddoli
fod hyn oll yn swnio'n 'gonsbirotorial' i rai

Ond plis peidiwch coelio gair dwi'n ddweud.



ogam y bugeiliaid.

yn ein hardal ni

y ffermwyr a greodd y tirlun

i bori ynddi a chnoi cil.

Dyma le y cyfansoddwyd cerddi cyntaf

nid oedd ceinder iaith

symbolau Fel hen nodiant

yn britho'r tir

llythrennau dirgel

nid ar bapur.

toriadau clust

'bwlch tri-thoriad'

'torri blaen'

'bwlch plŷg'

'cwart'

marciau,

yn darlunio'r tir

Dyn ni gyd yn cael siâp. Mae'n anodd byw heb amlinell, siŵr o fod. Dyw i ddyn yn siarad am siâp corfforol, ond rhyw siâp arall sy'n amlinellu ein bod. A beth sy'n gwneud siâp ond profiadau?

Dyma garreg bron yn esmwyth sy'n eistedd yn gyfforddus yn fy llaw. Peth mud yw hon ond mae hanes

gyda hi.

Mae ei maint yn siarad am drais. Torri a chwalu sydd wedi creu maint o'r math honno. Roedd y garreg hon yn rhan o rywbeth mwyaf, dan wasgedd y ddaear. Ond cafodd ei eni, a daeth i mewn awyr annisgwyl. Torrodd hi i ffwrdd i fynd yn ynysedig, wedi ei hollti o'r pridd.

Mae ei llyfnder yn siarad am amser wedi ei basio, yn garedig, yn dyner hyd yn oed. Y môr oedd yn yr un i'w chysuro. Llyfnodd y dŵr ei honglau poenus, yn araf deg. Ond mae ei greithiau bach yn para fel atgofion ei hanafiadau. Mae'r môr wedi gwneud ei orau mor las, ond ni allai amser ddileu pob dim.

Ac mae staen haearn arni hefyd, fed ei bod hi wedi trio cuddio ei hanes gyda cholur. Er bod y llygad craff yn gallu darllen drwy'r colur. Nid wyt ti angen cuddio fel hynny, maen bach.

Mae digon o gerrig yng ngwaelod y môr, er bod diogon ond un heb eu hystyried.

len li h S

N O D i A D a U

